## ADRAN 3A – CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD – SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

### 1. Cylch Gorchwyl y Cabinet

1.1 Gweithredu fel prif ffocws ar gyfer arweinyddiaeth a phenderfyniadau gwleidyddol o ddydd i ddydd yn ogystal ag atebolrwydd democrataidd, ar lefel gorfforaethol.

1.2 Cyflawni pob un o swyddogaethau'r Awdurdod Lleol nad ydynt yn gyfrifoldeb i unrhyw ran arall o'r Awdurdod Lleol, boed hynny yn ôl y gyfraith, neu o dan y Cyfansoddiad.

1.3 Cynnig i'r Cyngor:

1.3.1 y polisïau allweddol, a'r strategaethau adnoddau cysylltiedig, sy'n ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor, yn ogystal â newidiadau i'r fframwaith hwnnw, gan gynnwys y canlynol:

- Cynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg a Chynllun Corfforaethol y Cyngor;
- Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Blynyddol y Cyngor, a lefelau Treth y Cyngor;

(cymryd cyngor gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, asiantaethau neu grwpiau sydd â diddordeb, y gymuned leol, ac eraill, drwy broses ymgynghori'r Cyngor, fel y bo'n briodol).

1.3.2 unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un o bwerau a swyddogaethau'r Cyngor.

1.4 Rhoi arweiniad i Gynghorwyr Gweithredol a Phrif Swyddogion o ran:

1.4.1 datblygu a chydlynu polisïau, a'u rhoi ar waith;

1.4.2 pennu blaenoriaethau cymharol ar gyfer gweithredu;

1.4.3 sicrhau bod y Cyngor a'i amryw wahanol wasanaethau yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon.

1.5 Sicrhau bod strategaethau a chynlluniau'r Cyngor yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gan gynnwys monitro ac adolygu cyflawniad, a thrafod yr angen am newidiadau mawr wrth ddarparu gwasanaethau, neu ddatblygiadau newydd er mwyn gwella safonau ac ansawdd gwasanaethau.

1.6 Derbyn adroddiadau gan swyddogion priodol y Cyngor, a/neu gan Gynghorwyr yr Adain Weithredol, ar faterion o bwys y mae angen eu trafod neu eu penderfynu, a chynigion ar gyfer polisïau newydd neu ddiwygiedig a'u gweithredu.

1.7 Derbyn gwybodaeth bob chwarter mewn perthynas â Chyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor, gan gynnwys manylion fel sydd wedi'u hamlinellu isod

(Darperir yr wybodaeth hon hefyd i'r Pwyllgor Craffu – Trosolwg a Chraffu ar gyfer craffu a monitro pellach):

- Derbyn gwybodaeth monitro cyflawniad yn rheolaidd mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau cyfalaf yn rhaglen gyfalaf dreigl dair blynedd yr Awdurdod.
- Monitro cynnydd cyffredinol sy'n cael ei wneud o ran darparu'r rhaglen gyfalaf dreigl dair blynedd, ac adrodd i'r Cyngor ar unrhyw gamau unioni sy'n ofynnol, os oes angen hynny.
- Cytuno unrhyw aildrefnu o ran camau'r rhaglen gyfalaf dreigl dair blynedd a gytunwyd o ganlyniad i oedi o ran y cynllun a/neu unrhyw fater brys arall.
- Monitro cynnydd cyffredinol sy'n cael ei wneud o ran darparu'r strategaeth gyllideb refeniw flynyddol, ac adrodd i'r Cyngor am unrhyw gamau unioni sy'n ofynnol, os oes angen hynny.
- Derbyn gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw drosglwyddiadau ariannol sy'n cael eu gweithredu yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.
- Monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys diweddariadau ar dargedau a dangosyddion cyflawniad, camau gweithredu a risgiau strategol.

1.8 Cynghori'r Cyngor ar lefel yr adnoddau cyfalaf sy'n debygol o fod ar gael i ariannu rhaglen gyfalaf dreigl dair blynedd yr Awdurdod ac i gynghori'r Cyngor ar flaenoriaethau gwariant cyfalaf ac ar brosiectau neu ddatblygiadau unigol sydd angen cyllid.

1.9 Cynghori'r Cyngor am lefel yr adnoddau refeniw sy'n debygol o fod ar gael er mwyn cynnal ei gyllideb refeniw yn y flwyddyn ariannol bresennol ac mewn rhai sydd i ddod hefyd, ac i gynghori'r Cyngor ynglŷn â blaenoriaethau gwariant refeniw ac ar ddyrannu adnoddau i bob Cyfadran Gwasanaeth.

1.10 Meddu ar ddisgresiwn i geisio cyngor neu sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y gymuned leol drwy ymgynghori, a chyrff perthnasol eraill ynglŷn â materion o bwys cyn gwneud penderfyniad.

1.11 Pennu'r ymateb i adroddiadau gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a Phwyllgorau Craffu eraill, yn dilyn unrhyw argymhellion a dderbyniwyd ynglŷn â darparu gwasanaethau, gwella gwasanaethau, neu newidiadau polisi.

1.12 Sefydlu Pwyllgorau Cabinet Sefydlog, lle bo hynny'n addas, yn fodd i drafod agweddau penodol ar waith y Cabinet yn fwy effeithlon.

1.13 Penodi (ar sail gweithgor) gweithgorau ad hoc i roi cymorth gydag elfennau allweddol o ran datblygu polisi (gan gynnwys gweithio gyda Chynghorwyr Gweithredol perthnasol ac Uwch Swyddogion o blith Uwch Reolwyr y Cyngor).

1.14 Sefydlu fforymau pwnc i hybu deialog ynglŷn â materion sydd o bwys i'r Cyngor, y gymuned a sefydliadau lleol eraill sy'n gweithio'n agos â'r Cyngor, a hyrwyddo gwaith partneriaeth ar y materion hyn.

1.15 Sicrhau bod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolbwynt wrth ystyried pob eitem o fusnes.

1.16 Gweithio ar y cyd â mudiadau partner a chymunedau er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol pobl yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cynnwys trafod effaith hirdymor penderfyniadau, cynnwys amrywiaeth o bobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gweithredu dull integredig gyda'n partneriaid wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, gweithio mewn modd cydweithredol, a cheisio ymyrryd yn gynnar ac atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf.

1.17 Caiff unrhyw gyfarfod o'r Cabinet ei gynnull yn unol â "Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth" Cyfansoddiad y Cyngor.

1.18 Bydd y Cabinet yn llunio Rhaglen Waith ar ddechrau pob Blwyddyn y Cyngor, a fydd ar gael i'r cyhoedd trwy wefan y Cyngor.

1.19 Pedwar fydd y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Cabinet, a thri fydd y cworwm ar gyfer Pwyllgorau'r Cabinet neu Grwpiau Llywio'r Cabinet, oni nodir yn wahanol yng Nghylch Gorchwyl y Grŵp.

1.20 Pan fydd mwy nag un person yn yr un Swydd Cabinet (aelodau o'r Cabinet sydd wedi'u hethol neu eu penodi i rannu'r un swydd) yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod Cabinet yn rhinwedd eu swydd fel aelod o'r Adain Weithredol, dim ond fel un person y caen nhw eu cyfrif gyda'i gilydd at ddiben penderfynu a yw'r cyfarfod yn gwneud cworwm.

1.21 Rhanwyr Swyddi'r Cabinet (Trefniadau pleidleisio)

1.22 O ran cyfarfodydd y Cabinet, bydd gan y rheiny sy'n rhannu Swyddi'r Cabinet (dau neu ragor o aelodau o'r Cabinet sydd wedi'u hethol neu'u penodi i rannu'r un swydd yn y Cabinet) un bleidlais rhyngddyn nhw mewn perthynas ag unrhyw fater y mae ganddyn nhw hawl i bleidleisio arno oherwydd eu bod yn aelod o'r Cabinet. Mae'r bleidlais wedi'i dyrannu i'r trefniant rhannu swydd ac nid i Rannwr Swydd unigol, felly dylai Rhanwyr Swyddi gael trafodaethau paratoadol priodol.

1.23 Os bydd dau neu ragor o'r rheiny sy'n rhannu'r un Swydd y Cabinet ('Partneriaid Rhannu Swyddi') yn mynychu cyfarfod Cabinet, yn rhinwedd eu rôl fel aelodau o'r Cabinet dylid cofnodi eu bod wedi mynychu'r cyfarfod a chân nhw, ill dau, annerch y cyfarfod. Serch hynny, lle mae angen pleidlais mewn perthynas â phenderfyniad gan y Cabinet, rhaid iddyn nhw benderfynu rhyngddyn nhw ymlaen llaw pwy fydd yn bwrw'r bleidlais a rhoi gwybod i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

1.24 Os bydd Rhannwr Swydd y Cabinet yn mynychu cyfarfod Cabinet, yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cabinet, lle mae angen pleidlais mewn

perthynas â phenderfyniad Cabinet, yna rhaid i'r Rhannwr Swydd Cabinet sy'n mynychu fwrw ei bleidlais gan ystyried trafodaethau ymlaen llaw gyda'r person sy'n rhannu'r un swydd.

1.25 Os nad oes cytundeb rhwng y rheiny sy'n rhannu'r un swydd, fydd eu pleidlais ddim yn cael ei chyfrif.

1.26 Os oes gan un Rhannwr Swydd y Cabinet fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu mewn mater ('Rhannwr Swydd â Buddiant sy'n Gwrthdaro'), dylai'r Partner Rhannu Swydd sydd heb fuddiant sy'n gwrthdaro fwrw pleidlais y rhannwr swydd heb gael unrhyw drafodaethau paratoadol am y mater gyda'r Rhannwr Swydd â Buddiant sy'n Gwrthdaro.

## 2. Y Cabinet 2026-27

Mae enwau'r un ar ddeg Aelod o'r Cabinet a benodwyd gan yr Arweinydd, a'u gwahanol Deitlau a Chyfrifoldebau Cabinet priodol wedi'u hamlinellu isod: Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'r Arweinydd wedi penderfynu rhannu tair swydd o dan drefniant Rhannu Swyddi. Bydd y tri maes sy'n cael eu rhannu yn cael eu rhannu'n feysydd cyfrifoldeb cyfartal a bydd un o'r rhanwyr swydd yn mynd yn gyfrifol am y portffolio cyfan yn absenoldeb y llall.

2.1 Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniadau ar y cyd fel grŵp (er y caiff Aelodau Cabinet unigol benderfynu ar rai materion yn unigol, yn unol â'r drefn sydd wedi'i phennu ym mharagraff 3 isod). Caiff Aelodau'r Cabinet fynegi anghytundeb â phenderfyniadau'r Cabinet a bydd hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol, os yw'r Aelod(au) o'r Cabinet yn dymuno hynny.

2.2 Mae portffolios personol o gyfrifoldeb wedi'i neilltuo i'r Aelodau o'r Cabinet unigol sydd wedi'u rhestru isod (gan gynnwys trefniant Rhannu Swydd), er mwyn iddyn nhw weithredu'n "hyrwyddwyr" corfforaethol wrth fwrw ymlaen â themâu datblygu trawsbynciol pwysig ar draws holl wasanaethau a meysydd gweithgarwch y Cyngor. (Caiff yr Arweinydd newid y portffolios yma ar unrhyw adeg.) Bydd pob un o'r Aelodau Cabinet unigol yn gweithio'n agos â swyddog cyfrifol o blith Uwch Reolwyr y Cyngor (fel sydd wedi'i nodi isod), ac yn cymryd cyngor proffesiynol ganddyn nhw. Byddan nhw'n gweithio gydag Uwch Swyddogion priodol eraill hefyd, fel sy'n gweddu eu cyfrifoldebau penodol yn Hyrwyddwr Corfforaethol neu Gymunedol, a bydd modd iddyn nhw gynnull cyfarfodydd gyda'r staff yma yn ôl yr angen. Yn ogystal â hyn bydd pob deiliad portffolio yn cysylltu ag Aelodau eraill o'r Cabinet, ac yn rhoi gwybod iddyn nhw am faterion unigol sy'n debygol o effeithio ar eu portffolios.

2.3 Bydd trefniadau ar waith i ddarparu cymorth gweinyddol pwrpasol i Aelodau'r Cabinet wrth iddyn nhw gyflawni'u dyletswyddau.

2.4 Yn ogystal â hyn, bydd Aelodau Arweiniol o'r Cabinet yn gweithredu'n bwynt cyfeirio ac ymateb ar gyfer problemau neu gwynion (sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau) sydd wedi'u derbyn oddi wrth Aelodau Etholedig, Aelodau Senedd lleol, Aelodau Seneddol lleol, a chyrff gwleidyddol eraill neu gynrychiolwyr ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. (Wrth fynd i'r afael â chwynion ffurfiol am ddarparu Gwasanaethau'r Cyngor, bydd yr

Aelod Cabinet Arweiniol yn sicrhau yn y lle cyntaf fod Polisi Cwynion y Cyngor wedi'i ddilyn llawn. Yn ei rôl yn "ombwdsmon" neu gymrodeddwr, caiff yr Aelod Cabinet Arweiniol ddewis ymyrryd mewn cwynion yn erbyn darparwyr gwasanaethau lleol sy'n allanol i'r Cyngor).

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Ann Crimmings**

Portffolio: **Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Cyllid - Cadeirydd y Cabinet**

**Prif Swyddogion Cyfrifol** – Paul Mee, Barrie Davies, Stephen Williams a Christian Hanagan

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Prif Weithredwr, Adnoddau Corfforaethol, Swyddfa'r Cabinet a Chyfathrebu

Meysydd polisi perthnasol:

- Cadeirydd y Cabinet
- Polisi Corfforaethol
- Cysylltiadau Llywodraeth a Materion Cyhoeddus
- Rheolaeth Ariannol / Strategaeth Gyllideb a Buddsoddi
- Diogelu ar draws y Cyngor (Hyrwyddwr Diogelu)
- Partneriaeth gymdeithasol
- Gwastraff ac Ailgylchu

***

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Maureen Webber BEM**

Portffolio: **Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar Faterion Busnes y Cyngor a'r Gymraeg**

**Prif Swyddogion Cyfrifol** – Andy Wilkins, Christian Hanagan a Richard Evans

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd/ Adnoddau Dynol

Meysydd polisi perthnasol:

- Busnes y Cyngor a Gwasanaethau Democrataidd
- Cyfathrebu a Marchnata
- Adnoddau Dynol
- Lluoedd Arfog (Hyrwyddwr Materion y Lluoedd Arfog)
- Amrywiaeth a Chynhwysiant (Hyrwyddwr Siarter Aelodau a Chydraddoldeb)
- Y Gymraeg (Hyrwyddwr Materion y Gymraeg)

- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Etholiadau
- Cofrestryddion

***

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sharon Rees**
Portffolio: **Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Phobl Ifainc**

**Prif Swyddogion Cyfrifol** – Dr Marium Haque, Neil Elliott a Louise Davies

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Addysg a Chynhwysiant a Gwella Ysgolion, Gwasanaethau i Blant, Cymunedau

Meysydd polisi perthnasol:

- Addysg i bob oed
- Gwella Ysgolion
- Mynediad a Chynhwysiant
- Moderneiddio Ysgolion
- Mynychu'r Ysgol (presenoldeb) a Lles
- Rhianta Corfforaethol
- Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar
- Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid

***

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Robert Harris a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol Scott Emanuel (*Trefniant Rhannu Swydd*)**

Portffolio: **Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau, Diwylliant a Hamdden**

**Prif Swyddogion Cyfrifol** – Louise Davies

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Cymunedau

Meysydd polisi perthnasol:

**Y Cynghorydd Robert Harris – cyfrifoldeb pennaf dros faterion Cymunedau**

- Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd a Materion Rheoleiddio (Eiriolwr Cam-drin Domestig)
- Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned
- Eiriolwr Cam-drin Domestig
- Cam-drin Domestig a Chefnogaeth i Ddioddefwyr

- Sector Cymunedol a Gwirfoddol (Cynghorau Gwirfoddol Sirol)

**Y Cynghorydd Scott Emanuel – cyfrifoldeb pennaf dros faterion Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth**

- Hamdden, Chwaraeon ac Atyniadau Ymwelwyr
- Gwasanaethau Celfyddydol a Diwylliannol
- Gwasanaethau Profedigaethau
- Mannau Chwarae
- Gwasanaeth y Llyfrgelloedd

***

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Mark Norris**
Portffolio: **Aelod o'r Cabinet ar faterion Adfywio a Thai**

**Prif Swyddogion Cyfrifol** – Simon Gale

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Adfywio a Thai

**Meysydd polisi perthnasol**:

- Gwasanaethau Materion Tai
- Datblygiad Economaidd
- Materion Cynllunio a Rheoli Datblygu

***

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Gareth Caple**
Portffolio: **Aelod o'r Cabinet ar faterion Gofal Cymdeithasol**

**Prif Swyddogion Cyfrifol**– Neil Elliott

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Gwasanaethau Cymdeithasol

**Meysydd polisi perthnasol:**

- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (Hyrwyddwr Pobl Hŷn / Hyrwyddwr Materion O Blaid Pobl Hŷn)
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

***

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Christina Leyshon a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol Ros Davies (*Trefniant Rhannu Swydd*)**

Portffolio: **Aelod o'r Cabinet ar faterion Adnoddau, Cwsmeriaid ac Ynni**

**Prif Swyddogion Cyfrifol –** Barrie Davies

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Adnoddau Corfforaethol

**Meysydd polisi perthnasol:**
**Y Cynghorydd Christina Leyshon– cyfrifoldeb pennaf dros faterion Adnoddau**

- Gwasanaethau Caffael a Thrafodion
- Archwilio, Cyflawniad a Thrawsnewid
- Cyllid Gweithrediadol
- Pensiynau

**Y Cynghorydd Ros Davis – cyfrifoldeb pennaf dros faterion Digidol, Cwsmeriaid ac Ynni**

- TGCh a Swyddfa Gwelliannau Digidol
- Gofal i Gwsmeriaid
- Eiddo'r Cyngor a Chynllunio Asedau
- Ynni a Lleihau Carbon
- Hyrwyddwr Materion Newid yn yr Hinsawdd

***

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Andrew Morgan OBE a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol Louisa Addiscott (*Trefniant Rhannu Swydd*)**

Portffolio: **Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Seilwaith Cyfalaf**

**Prif Swyddogion Cyfrifol** – Steve Williams a Barrie Davies

**Cyfadrannau Cyfrifol** – Gwasanaethau'r Amgylchedd

**Y Cynghorydd A Morgan OBE - cyfrifoldeb pennaf dros faterion y Priffyrdd a Seilwaith Cyfalaf**

- Priffyrdd
- Cerbydau'r Cyngor a Gwasanaethau Parcio
- Peirianneg ac Isadeiledd
- Cynllunio ar gyfer Argyfyngau
- Rhaglen Gyfalaf a Buddsoddiadau'r Cyngor

**Y Cynghorydd L Addiscott – cyfrifoldeb pennaf dros faterion Mannau Cyhoeddus** -

- Thrafnidiaeth
- Trafnidiaeth Integredig
- Mannau Cyhoeddus, Parciau a Gwasanaethau Cefn Gwlad
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Gofal y Strydoedd (Glanhau)
- Goleuadau'r Strydoedd

**Aelodaeth - Prif Swyddogion**

Mr Paul Mee, Prif Weithredwr

Mr Barrie Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (Adran 151)

Mr Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd (Swyddog Monitro)

Mr Richard Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd, y Gymraeg a Chyfathrebu (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)

Ms Louise Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymuned

Mr Stephen Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd

Dr Marium Haque, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Mr Simon Gale, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio

Mr Neil Elliott, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

## 3. Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i Aelodau o'r Cabinet

Y Cabinet ar y cyd sy'n gwneud penderfyniadau fel arfer, ond caiff Aelodau unigol o'r Cabinet wneud penderfyniadau ar faterion unigol o fewn maes eu portffolio cyfrifoldebau, ar yr amod eu bod yn ymgynghori â'r swyddogion priodol o blith Uwch Reolwyr y Cyngor, ac Aelodau eraill o'r Cabinet lle y bo angen. Os bydd ansicrwydd o ran a yw mater yn perthyn i faes portffolio penodol, bydd yr Arweinydd yn penderfynu pa Aelod o'r Cabinet yw'r un priodol i fynd i'r afael â'r mater. Caiff yr Arweinydd wneud penderfyniadau brys yn absenoldeb y deiliad portffolio perthnasol.

## 4. Pwyllgorau'r Cabinet wedi'u penodi gan yr Arweinydd, eu Haelodaeth a'u Cylchoedd Gorchwyl

Caiff y pedwar Pwyllgor Cabinet isod eu sefydlu a'u cyfansoddi ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn cael gwybod yn brydlon am unrhyw Bwyllgorau Cabinet ychwanegol a allai gael eu penodi gan y Cabinet yn y dyfodol.

### 4.1 Is-bwyllgor Cabinet – Parc Coffa Ynysangharad

**Aelodaeth:** (5 cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Aelodau o'r Cabinet: M Webber BEM (Cadeirydd), A Crimmings (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol eraill: L Addiscott, C Leyshon a S Powderhill

**Cylch Gorchwyl:**

(a) Gweithredu ar ran yr Adain Weithredol yn Ymddiriedolwr Corfforaethol i Barc Coffa Ynysangharad ac, yn rhinwedd y swydd honno, ystyried pob mater yn ymwneud â defnyddio a datblygu'r Parc yn y dyfodol a chadw at amcanion yr Ymddiriedolaeth a sefydlwyd felly.

(b) Trafod yr holl gynigion a sylwadau oddi wrth y Cyngor neu drydydd parti, neu ar eu rhan, mewn perthynas a defnydd neu berchnogaeth y cyfleuster.

(c) Sicrhau'r holl gyngor a chymorth angenrheidiol, gan gynnwys cyngor a chymorth allanol lle bo'u hangen, i wneud yn siŵr bod buddiannau'r Ymddiriedolwyr wedi'u gwarchod.

(Ni chaiff unrhyw Aelod o'r Pwyllgor hwn gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad gan y Cabinet, y Cyngor neu unrhyw Bwyllgor arall ar unrhyw bolisi neu ddatblygiad neu unrhyw fater a allai effeithio ar y Parc, a rhaid iddyn nhw ddatgan buddiant a gadael y cyfarfod pan fydd mater o'r fath yn codi).

Cworwm y Pwyllgor hwn fydd 3 Aelod.

### 4.2 Is-Bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg

**Aelodaeth:** (5 cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: M Webber BEM (Cadeirydd), L Addiscott (Is-gadeirydd), S Rees, M Norris, S Rees a S Emanuel

**Cylch Gorchwyl:** Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011,

mae'r egwyddorion isod yn sail i gylch gorchwyl y Pwyllgor:

- yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- dylai unigolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.
- Galluogi'r Cyngor i gyflawni'r amcanion polisi a osodwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.

**Pwrpas yr Is-bwyllgor:** Mae'r Is-bwyllgor wedi ei sefydlu i sicrhau dull Awdurdod-gyfan wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol y Safonau Statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu'r Cynllun Iaith Gymraeg statudol. Bydd yr aelodau yn darparu cyfeiriad strategol o ran rhoi'r ddeddfwriaeth neu'r polisïau yma ar waith, ynghyd ag unrhyw bolisïau lleol ynglŷn â'r Gymraeg, a chefnogi Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i gyflawni ei dyletswyddau. Bydd yr aelodau yn trafod sut gall y Grŵp roi cyfle i drigolion ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Aelodaeth:** Mae aelodaeth yr Is-Bwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth ar ran y Cabinet (fel y dangosir uchod - bydd gan yr Aelodau hyn hawliau pleidleisio i benderfynu ar fater), cynrychiolaeth ar ran y Cyfarwyddwyr (Cyfarwyddwr, Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd, y Gymraeg a Chyfathrebu ar hyn o bryd), cynrychiolaeth ar ran swyddogion a chynrychiolaeth ar ran sefydliadau cyfrwng Cymraeg allanol. Bydd yr Aelod o'r Cabinet yn Gadeirydd ac yn Hyrwyddwr y Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, bydd yr Is-bwyllgor yn cynnwys Pennaeth yr Uned Gwasanaethau Cymraeg, Swyddog y Gymraeg, a Phennaeth Gwasanaeth.

**Cynrychiolaeth Allanol:** Gwahoddir Menter Iaith i gyfarfodydd yr Is-bwyllgor hefyd. Mae hyn yn galluogi Menter Iaith a'r Uned Gwasanaethau Cymraeg fel ei gilydd i drafod materion sy'n effeithio ar gynnal gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned ar lefel strategol, ac i weithio mewn partneriaeth er mwyn darparu, canlyniadau gwell i gleientiaid.

**Cynnal y cyfarfodydd:** Bydd cyfarfodydd bob chwe mis oni chytunir fel arall gan yr Is-bwyllgor. Mae modd galw cyfarfodydd brys o'r Is-bwyllgor os yw'r Cadeirydd o'r farn bod hynny'n briodol.

**4.3 Is-bwyllgor y Cabinet - Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio**

**Aelodaeth:** (chwe chynrychiolydd)

**Aelodau â Phleidlais:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: R Davis (Cadeirydd), L Addiscott (Is-gadeirydd), A Crimmings, M Norris ac S Emanuel

**Aelod heb Bleidlais:** Y Cynghorydd W Owen

**Cylch Gorchwyl:** Er mwyn rhoi'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar waith, bydd yr Is-bwyllgor yma yn:

- Monitro gweithrediad y camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun Datgarboneiddio;
- Monitro gweithrediad y camau gweithredu sy'n deillio o Gynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 Amgylcheddol (Cymru) y Cyngor
- Datblygu camau gweithredu a pholisïau penodol sy'n cefnogi lleihau Ôl-troed Carbon y Cyngor ac ymateb i 'Net Sero'- Adroddiad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ac adroddiad Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel;
- Cyflawni ymrwymiad y Cyngor i gyd-fynd ag uchelgeisiau Cytundeb 100 y DU trwy ddod yn sefydliad Ynni Glân.
- Datblygu'r ymrwymiadau hyn ac wrth wneud hynny, dod yn fwy uchelgeisiol trwy ailosod targedau a herio sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau yn y dyfodol i ddod yn Gyngor 'Net Sero' erbyn 2050.

- Rhoi cyfle i bobl, unigolion sydd â diddordeb a grwpiau sy'n byw yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gymryd rhan yn ymateb ehangach y gymuned;

- Ystyried y tueddiadau hirdymor a fydd yn effeithio ar Rondda Cynon Taf a pha gamau y mae modd eu cymryd yn lleol er mwyn helpu i'w lleihau.

- Ystyried sut y mae modd i'r Cyngor weithio gydag eraill ar lefel lleol a chenedlaethol i ystyried datrysiadau ar y cyd.

- Ystyried sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant.

- Bydd Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i amlinellu gwaith a deilliannau'r Is-bwyllgor, pan fo hynny'n briodol.

- Cynnal ymweliadau â safleoedd i gael mwy o fewnwelediad i'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn bwrw targedau hinsawdd y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol.

## 5. Trefniadau ar y Cyd

5.1 Mewn perthynas â'r trefniant ar y cyd isod, rwy'n cynnig:

- Bod y Cyngor yn ymrwymo i bob trefniant ar y cyd ar y telerau sydd yn eu lle ar hyn o bryd, ac yn unol ag Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dirprwyo i'r Cyd-bwyllgorau y swyddogaethau hynny o eiddo'r Adain Weithredol sydd wedi'i pennu yn y cytundebau hynny.

- Bod y cytundebau ar y cyd yn cael eu hailgyfansoddi i nodi y caiff pob Cyngor cyfansoddol gael ei gynrychioli gan Aelod(au) Gweithredol neu Anweithredol. Lle y caiff un Aelod yn unig ei enwebu i gynrychioli Cyngor, caiff yr Aelod hwnnw arfer pleidlais y Cyngor a fydd o'r un nifer a'r hyn a arferwyd yn flaenorol gan y Cyngor.

- Nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi sefydlu Bwrdd Gweithredol a chaiff ei gynrychiolwyr ar Gyd-bwyllgor Amlosgfa Llwydcoed fod, neu beidio â bod, yn Aelodau'r Bwrdd.

- Bod pob Cyd-bwyllgor yn cael ei awdurdodi i sefydlu panel ymgynghori, os yw'n ystyried bod hynny'n addas. Mae modd i'r panel gynnwys Aelodau Gweithredol ac Anweithredol yr Awdurdodau cyfansoddol sydd wedi bod yn aelodau o'r Cyd-bwyllgorau, fel nad yw gwaith y Cyd-

bwyllgor yn colli eu harbenigedd na'u hymrwymiad.  (Mater i bob Cyd-bwyllgor ei benderfynu fydd hyn.)

| **Cyd-bwyllgor** | **Swyddogaeth** | **Enwau Aelodau'r Cabinet neu'r Aelodau Anweithredol sydd wedi'u penodi** |
|---|---|---|
| Cwmni Capita | Darparu Gwasanaethau Peirianneg gyda Chynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. | M Ashford<br>A Morgan OBE<br>M Norris<br>S. Bradwick<br>J Brencher<br>G Holmes |
| Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg | Darparu Gwasanaethau Archifau gyda phum Awdurdod arall. | W Lewis<br>B Harris<br>G Jones<br>B Stephens |
| Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llwydcoed | Darparu Gwasanaethau Amlosgfa gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | J Cook<br>A Crimmings<br>A Fox<br>G Jones<br>A Owain Rogers |
| Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo | Darparu Gwasanaeth Amlosgfa gyda Chynghorau Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. | J Turner<br>B Stephens |
| Y Cyd-bwyllgor Mabwysiadu Rhanbarthol (Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd) | Darparu a chyflenwi Gwasanaethau Mabwysiadu mewn cydweithrediad â Chyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. | G Caple<br><br>S Rees (Dirprwy) |
| Cyd-Bwyllgor y Gwasanaeth | Cytunwyd ar y Cyd-bwyllgor Mabwysiadu Cenedlaethol ar ran y 22 | G Caple |

| | | |
|---|---|---|
| Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru | Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unol â thelerau'r Cytundeb ar gyfer Sefydlu Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ('Cytundeb y Cyd-bwyllgor'). Mae'n galluogi awdurdodau lleol i arfer eu pwerau ar y cyd ar gyfer darparu swyddogaethau cenedlaethol a chydlynu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru. | S Rees (Dirprwy) |
| ClymuCelf (ArtsConnect) | Darparu profiadau cost effeithiol o ansawdd uchel ym maes y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bro Morgannwg | S Emanuel |

## 6. Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i Swyddogion

6.1 Caiff y rhain eu dirprwyo i Brif Swyddogion o dan Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sef swyddogaethau o fewn eu cyfrifoldeb, yn y telerau wedi'u pennu yn Adran 5 o Ran 3 o'r rhan hon o'r Cyfansoddiad.

- Cofnodi Penderfyniadau Swyddogion

  Yn unol â'r diwygiadau a gytunwyd gan y Cyngor yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 25 Mai 2016, bydd 'Penderfyniadau Allweddol' gan swyddogion o blith Uwch Reolwyr y Cyngor dan awdurdod dirprwyedig yn agored i'w craffu. Bydd y broses hon yn gwella tryloywedd ac atebolrwydd ac yn sicrhau dull cyson a chadarn o ran gweithredu penderfyniadau.

  Bydd raid cyhoeddi Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo ar unwaith a ddim

yn hwyrach na 2 ddiwrnod gwaith clir yn dilyn y penderfyniad. (Cyn ei gyhoeddi, bydd Prif Swyddog yn gwirio'r Hysbysiad o Benderfyniad o ran ei gywirdeb, a chaiff ei gyhoeddi maes o law. Bydd y broses hon yr un peth â'r hyn sydd yn ei le mewn perthynas â hysbysiadau o benderfyniadau'r Cabinet). Ar ôl ei gyhoeddi, bydd Penderfyniad yn destun yr un broses 'Galw i Mewn' ag unrhyw benderfyniad gan Bwyllgor y Cabinet, h.y. bydd y penderfyniad yn dod i rym a chaiff ei roi ar waith ar ôl 3 diwrnod gwaith clir wedi i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi, oni bai ei fod yn cael ei 'alw i mewn' i'w adolygu gan bwyllgor craffu.

Bydd penderfyniadau dirprwyedig gan Swyddog ynglŷn â rheoli o ddydd i ddydd neu reoli gweithredol yn cael eu cofnodi gan y Maes Gwasanaeth a bydd cofnod o'r penderfyniadau'n cael ei gadw.

## 7. Penodiadau i Gyrff sy'n ymgymryd â gwneud Swyddogaethau Gweithredol, neu'n rhoi cyngor arnynt

Mae'r cyrff canlynol neu bwyllgorau llywio sydd â chyfansoddiad i ystyried a rhoi cyngor i'r Adain Weithredol. Dyw'r cyfryw bwyllgorau hyn ddim yn gwneud penderfyniadau. Ond, byddan nhw'n cael gwneud sylwadau neu gyflwyno argymhellion mewn perthynas â'u cylchoedd gorchwyl perthnasol.

Caiff Aelodau eu penodi i'r cyrff canlynol:-

### 7.1 Grŵp Llywio Fforwm Cyllidebau'r Ysgolion

**Aelodaeth:** (chwe chynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: S Rees (Cadeirydd), R Davis (Is-gadeirydd), A Crimmings, M Webber BEM, G Caple ac S Emanuel.

**Cylch Gorchwyl:**

Bydd Aelodaeth o'r Fforwm yn cynnwys Aelodau Etholedig, Penaethiaid Ysgol (o ysgolion cynradd, uwchradd ac anghenion arbennig) neu gynrychiolwyr o blith llywodraethwyr yn ogystal â chynrychiolaeth undeb briodol, gyda chyfanswm o 15 o aelodau o leiaf- y maint delfrydol yn ôl canllawiau'r arfer orau ydy 20.

Mae Adran 47A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1999 fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Addysg 2002, yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu corff sydd i'w adnabod fel Fforwm Ysgolion, yn unol â'i reoliadau. Rhaid i'r Fforwm Ysgolion gynrychioli cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod. Mae modd i'r Fforwm gynnwys aelodau heb fod o ysgolion hefyd, os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.

Nod Fforymau Cyllideb Ysgolion yw gwella'r ddeialog a chyfathrebu rhwng swyddogion yr awdurdod lleol, ysgolion, llywodraethwyr ac aelodau etholedig a helpu ysgolion i gael gwell dealltwriaeth o faterion ariannol awdurdod lleol a'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyllidebau ysgolion. Mae fforymau wedi gwneud trefniadau cyllido yn fwy tryloyw ac wedi adeiladu ar berthnasau da rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae'r cylch gorchwyl wedi cael ei lunio yn unol â Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003, a ddaeth i rym ar 13 Tachwedd 2003.

Cynnal y cyfarfodydd

Er mwyn i dasgau'r fforwm gael eu cyflawni'n effeithiol mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai fforymau ysgolion gwrdd o leiaf bob tymor a threfnu cyfarfodydd amlach i drafod unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Mae'n fuddiol i gyfarfodydd ddilyn cylch ariannol yr awdurdod lleol er mwyn galluogi cyfranogiad yn y broses gwneud penderfyniadau ar yr adegau priodol.

7.2 **Pwyllgor Rheoli Ysgolion Rhithwir**

**Aelodaeth:** (dau gynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: S Rees a G Caple

7.3 **Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

**Aelodaeth:** (pum cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: K Webb, S Evans, B Stephens, W Treeby ac W Jones

7.4 **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - Grŵp Llywio**

**Aelodaeth:** (dau gynrychiolydd)

**Enw'r Aelod:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: S Rees ac B Stephens

7.5 **CBAC**

**Aelodaeth:** (Un cynrychiolydd)

**Enw'r Aelod:** Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees

7.6 **Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid**

**Aelodaeth:** (2 gynrychiolydd)

**Enw'r Aelod:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Rees a G Caple

7.7 **Bwrdd Ardal Gwella Busnes Pontypridd**

**Aelodaeth:** (Un cynrychiolydd)

**Enw'r Aelod:** Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris

**Cylch Gorchwyl:**

Bydd y Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth strategol Cwmni Ardal Gwella Busnes Eich Pontypridd, sef yr endid cyfreithiol sy'n rheoli'r Ardal Gwella Busnes, ac sy'n gyfrifol am sicrhau bod cronfeydd cyllid ardoll yr Ardal Gwella Busnes yn cael eu buddsoddi mewn ffordd briodol, yn unol â Chynllun Busnes yr Ardal Gwella Busnes fel y pleidleisiwyd gan fusnesau Pontypridd. Diben y Bwrdd yw goruchwylio'r gwaith o gyflawni Cynllun Busnes, prosiectau, a gwaith rheoli'r Cwmni yn effeithlon, yn ogystal â'r gwaith cyffredinol sydd ynghlwm â hyrwyddo Cwmni Ardal Gwella Busnes Pontypridd, a Phontypridd ei hun. Prif nod hyn yw cefnogi prif weithgarwch y cwmni.

7.8 **Grŵp Llywio'r Lluoedd Arfog**

**Aelodaeth:** (5 cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: M Webber BEM (Cadeirydd), C Middle (Is-gadeirydd), S Bradwick, D Parkin a C Preedy.

**Cylch Gorchwyl:**

Darparu arweiniad strategol i sicrhau bod anghenion aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf yn cael eu bodloni gan y Cyngor a'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

7.9 **Bwrdd Adfer ar ôl Digwyddiadau Mawr**

**Aelodaeth:** (4 cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Aelodau o'r Cabinet: A Crimmings (Cadeirydd), A Morgan OBE (Is-gadeirydd), L Addiscott and M Norris a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet sy'n ymwneud â'r 'digwyddiad' i'w ystyried, os nad oedd eisoes yn rhan o'r Aelodaeth.

Cworwm y Pwyllgor hwn fydd 3 Aelod.

Bydd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth ar gais Arweinydd y Cyngor i gysylltu â'r arbenigedd mewnol ac allanol priodol yn ôl yr angen. Gall hyn hefyd gynnwys cynrychiolwyr o fusnesau lleol a chanol tref yr effeithiwyd arnynt gan unrhyw ddigwyddiad.

**Diben y Bwrdd:**

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu i sicrhau dull Awdurdod cyfan o ddarparu gwasanaethau a blaenoriaethu adnoddau mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad mawr sy'n cael effaith andwyol ar gymunedau'r Fwrdeistref Sirol. Bydd y Bwrdd yn arwain y gwaith o gynllunio parhad busnes yn syth ar ôl digwyddiad o'r fath a bydd yn parhau i fonitro cynnydd y cam(au) cysylltiedig y cytunwyd arnynt yn rhan o'r cynllun adfer a bennwyd gan y Bwrdd.

**Cylch Gorchwyl:**

(a) Ystyried ymateb a chynlluniau adfer y Cyngor yn dilyn unrhyw ddigwyddiad difrifol a allai gael effaith ar y Fwrdeistref Sirol.

(b) Ystyried yr holl gynigion a chynlluniau ymateb, gan gynnwys argymhellion gan swyddogion, mewn perthynas â dyrannu adnoddau a blaenoriaethu gwasanaethau, asedau ac isadeiledd.

(c) Sicrhau'r holl gyngor a chymorth angenrheidiol, gan gynnwys, lle bo angen, cyngor allanol a chefnogi arweinyddiaeth gymunedol a rôl y Cyngor mewn perthynas â'r sefyllfa sifil wrth ymateb i effaith y digwyddiad mawr.

(d) Cytuno ar gynllun adfer uniongyrchol y Cyngor a chamau gweithredu cysylltiedig wrth edrych i'r dyfodol.

(e) Gweithredu fel bwrdd ymgynghorol i Arweinydd y Cyngor, os bydd angen gwneud penderfyniadau gweithredol brys (fel yr amlinellwyd yng nghynllun dirprwyo'r Arweinydd) mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i ddigwyddiad.

(f) Lle bo'n briodol, adrodd neu wneud argymhellion i'r Cyngor ar y materion yma.

7.10 **Bwrdd Rhianta Corfforaethol**

**Aelodaeth:** (7 cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: S Rees (Cadeirydd), G Caple (Is-gadeirydd), C Leyshon, D Grehan, S Hickman, B Stephens ac W Jones.

**Cynnal y Cyfarfodydd:** Cwrdd yn chwarterol neu yn ôl cyfarwyddyd Cadeirydd y Bwrdd

**Cynrychiolaeth Allanol**: Bydd cynrychiolwyr pobl ifainc yn cael eu cynnwys yn y Panel Ymgynghorol Rhianta Corfforaethol, er mwyn galluogi llais Plant sy'n Derbyn Gofal i gael ei gynnwys.

**Cylch Gorchwyl:**

Ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'i gyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â llunio polisi'r Cyngor mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen.

Sicrhau bod pob grŵp ac adran y Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo'r deilliannau gorau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen.

Hyrwyddo cydberthnasau effeithiol gydag asiantaethau partner allweddol er lles plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen.

Monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu sy'n deillio o'r Adolygiad Gwerth Gorau o Wasanaethau ar gyfer blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â monitro canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen.

Ystyried y canlyniadau, a hyrwyddo arferion dysgu cadarnhaol yn dilyn ystyried Adolygiadau Ymarfer Plant

Adolygu cyfraddau troseddu Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl rhyw, yn unol ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn deall patrymau troseddu gan ferched ac yn gallu cymryd camau i fynd i'r afael â hyn os oes angen.

Ystyried effaith systemau ac asiantaethau perthnasol eraill (er enghraifft, iechyd, llysoedd, neu ysgolion), a gweld sut mae modd eu gwella.

Ceisio barn plant sy'n derbyn gofal - mae gofyn i'r gwasanaeth eiriolaeth hwyluso hyn.

Gwahodd cynrychiolwyr o asiantaethau eraill i gymryd rhan fel sy'n briodol.

Monitro gweithrediad yr Addewid i bobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Adrodd yn uniongyrchol i'r Cabinet drwy Adroddiad blynyddol gan y Bwrdd.

Gwahoddir Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru i'r cyfarfodydd hefyd. Mae hyn yn galluogi TGP Cymru a Gwasanaethau Plant fel ei gilydd i drafod materion sy'n effeithio ar waith cynnal gwasanaethau yn y gymuned ar lefel strategol, ac i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau deilliannau gwell.

7.11 **Panel Ymgynghorol Rhianta Corfforaethol**

**Aelodaeth:** Bydd y Panel yn cael ei ffurfio o gynrychiolaeth Aelodau Etholedig o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, Swyddogion Perthnasol a chynrychiolaeth pobl ifainc.

**Cynrychiolaeth Aelodau** – Y Cynghorydd Rees, Y Cynghorydd Leyshon a'r Cynghorydd W Jones

**Rheoli Cyfarfodydd** - Fydd gan y Panel Ymgynghorol ddim unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau ac er mwyn cynorthwyo trafodaethau agored bydd trafodaethau'n cael eu cynnal y tu allan i olwg y cyhoedd. Felly, bydd y Panel

yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol drwy adroddiad Blynyddol neu pryd bynnag y bo hynny'n briodol.

**Cylch Gorchwyl:**

**Gwerthoedd ac Egwyddorion:** Bydd y Panel, gan weithio gyda phartneriaid, yn gweithio'n weithredol i ddiwallu anghenion amrywiol a hyrwyddo cyfleoedd bywyd plant sydd dan adain gofal Cyngor RhCT a'r bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal, gan wrando'n weithredol ar lais Plant sy'n Derbyn Gofal, er mwyn caniatáu iddynt gyflawni'r un cyfleoedd a chanlyniadau â phob plentyn.

Bydd y Panel Ymgynghorol yn sicrhau bod eu hagenda yn canolbwyntio ar yr hyn y mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn ei nodi fel rhywbeth sy'n berthnasol ar gyfer eu twf a'u datblygiad.

Bydd y Panel yn monitro gwasanaethau a ddarperir ar draws pob sefydliad statudol a gwirfoddol.

Gweithio'n weithredol gyda phobl ifainc i weithredu a monitro Addewid Rhianta Corfforaethol y Cyngor i bobl ifainc sy'n derbyn gofal.

## 7.12 Panel Mabwysiadu Canolog

**Aelodaeth:** (Un cynrychiolydd)

**Enw'r Aelod:** Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol: J Brencher

**Cylch Gorchwyl:**
Gwneud argymhellion mewn perthynas â'r canlynol:

a) P'un a ddylid lleoli plentyn i'w fabwysiadu ai peidio (plant wedi'u hildio);

b) P'un a fo darpar fabwysiadwyr yn addas i fabwysiadu plentyn ai peidio; a

c) P'un a ddylid lleoli plentyn gyda darpar fabwysiadwyr penodol ai peidio.

## 7.13 Panel Gofal Maeth

**Aelodaeth:** (Un cynrychiolydd)

**Enw'r Aelod**: Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher

**Cylch Gorchwyl:**
Gwneud argymhellion ynglŷn â'r canlynol i'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol:-

(1) trafod pob cais ar gyfer ei gymeradwyo, ac argymell p'un a yw unigolyn yn rhiant maeth addas;

(2) pan fydd yn argymell cymeradwyo cais i argymell y telerau sydd

wedi'u cymeradwyo, er enghraifft, o ran niferoedd ac oedrannau plant, neu a yw'r gymeradwyaeth yn ymwneud ag unrhyw blentyn penodol a enwir, neu ag unrhyw fath penodol o leoliad;

(3) argymell a yw unigolyn yn parhau i fod yn rhiant maeth addas ai peidio, ac a yw telerau ei gymeradwyaeth yn parhau i fod yn briodol ai peidio;

(i) yn ystod yr adolygiad cyntaf

(ii) yn ystod unrhyw adolygiad arall pan mae darparwr y gwasanaeth maethu'n gofyn iddo wneud hynny

### 7.14 Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol

**Aelodaeth:** (Pum cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: S Emanuel (Cadeirydd), R Harris (Is-gadeirydd), R Davis, J Brencher a D Grehan.

Bydd yr aelodaeth hefyd yn cynnwys: -

- Cynrychiolydd o Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC)
- Cynrychiolydd cymuned

Mae'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yn cynnwys Aelodaeth drawsbleidiol gyda chynrychiolaeth gan Aelodau'r Cabinet, Aelodau Etholedig, Cyfarwyddwr a swyddogion, a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r rolau yma'n hanfodol o ran sicrhau gwybodaeth ddiwylliannol eang, a fydd yn caniatáu i'r Grŵp Llywio drafod materion sy'n effeithio ar y gymuned ar lefel strategol, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth i ddarparu canlyniadau gwell.

**Cylch Gorchwyl:**
Nod Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yw darparu arweiniad a chyngor strategol ar faterion sy'n gysylltiedig â Gwasanaeth y Celfyddydau a Diwylliant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn benodol, i gynghori ar eitemau sy'n effeithio ar Wasanaeth y Celfyddydau, Theatrau RhCT, Gwasanaethau'r Llyfrgelloedd a'r Gwasanaeth Treftadaeth. Bydd y Grŵp Llywio yn canolbwyntio ar faterion megis ehangu ymgysylltiad; ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant; gwydnwch; y Gymraeg; cyfiawnder hinsawdd; iechyd a lles; a datblygu sgiliau sector. Caiff pynciau pob cyfarfod eu hystyried ar sail thematig.

Bydd y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yn cefnogi'r ffaith bod y Cyngor yn rhoi Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith drwy gefnogi datblygiad:

- Poblogaeth fedrus;

- Economi wydn;
- Trigolion iach
- Cyfleoedd cyfartal;
- Cymunedau Cydlynus;
- Cyfleoedd i drigolion fod yn greadigol trwy'r Saesneg a'r Gymraeg a;
- Cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.

**Cynnal y Cyfarfodydd:**
Bydd y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Caiff cyfarfodydd eraill eu galw ar gais y Cadeirydd.

7.15 **Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)**

**Enwau'r Aelodau**: Y Cynghorydd M Webber BEM (Cadeirydd)

**Aelodaeth:** Bydd y Grŵp Llywio yn cynnwys y cynrychiolwyr canlynol:
- Hyrwyddwr Cydraddoldeb o blith Aelodau
- Hyrwyddwyr Amrywiaeth o blith y Prif Swyddogion
- Cadeiryddion Rhwydwaith Staff neu gynrychiolydd enwebedig
- Cadeiryddion Gweithgor y Grŵp neu gynrychiolydd enwebedig
- Swyddogion Arweiniol o gynlluniau gweithredu penodol e.e. Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Addysg
- Cynrychiolwyr y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Cylch Gorchwyl:**

Cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei 3 amcan cydraddoldeb fel y'u cynhwysir yng nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor i sicrhau bod y Cyngor yn:

1. ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ym mhob agwedd o ddarpariaeth ein gwasanaethau.

2. denu ymgeiswyr sy'n cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau, gan gyfoethogi ein gallu sefydliadol o ran bodloni ein hamcanion.

3. parchu, gwerthfawrogi a gwrando ar ein holl weithwyr drwy ymgorffori diwylliant cynhwysol.

4. cynorthwyo ymhellach i gyflawni a monitro'r camau gweithredu a nodwyd yn Addewid Amrywiaeth y Cyngor.

**Diben y Grŵp Llywio** – Ffurfiwyd y Grŵp Llywio yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet o Gynllun Strategol Cydraddoldeb y Cyngor 2024-2028, i helpu i lywio cyflawniad yr amcanion cydraddoldeb a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor.

**Cynnal y cyfarfodydd:** Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnull yn ôl yr angen i sicrhau'r cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun ac ar gyfer ystyried, yn ôl yr angen, ddiweddariadau ac iddyn nhw amserlen benodol.

7.16 **Grŵp Llywio Cymdeithas Gefeillio RhCT**

**Aelodaeth:** (4 cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: E Watts (Cadeirydd), B Harris (Is-gadeirydd), M Webber BEM a M Norris.

Bydd gan y Grŵp Llywio bŵer i gyfethol aelodau nad ydynt yn pleidleisio i gynrychioli ysgolion, sefydliadau lleol ac unigolion, yn ogystal â dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i Aelodau'r Cabinet a Swyddogion.

| | |
|---|---|
| Cylch Gorchwyl | • Hyrwyddo a chynnal cysylltiadau rhyngwladol a chysylltiadau gefeillio trefi.<br>• Gwella'r gyd-ddealltwriaeth o weithgareddau diwylliannol, hamdden, addysgol a masnachol y trefi sydd wedi'u gefeillio.<br>• Hyrwyddo cyfleoedd datblygu personol trwy gyfnewid diwylliannol.<br>• Rhoi cymorth ariannol neu fel arall i ysgolion, sefydliadau lleol ac unigolion sy'n dymuno ffurfio cysylltiadau newydd ag ysgolion, sefydliadau ac unigolion mewn trefi sydd wedi'u gefeillio â'r awdurdod yma, gyda'r nod o gynnal y cyswllt cyfredol a sefydlu cysylltiadau newydd.<br>• Monitro gweithgareddau gefeillio newydd a rhai sydd wedi'u sefydlu eisoes. |

**8. Penodiadau Statudol Gofynnol**

**<u>BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS</u>**

8.1 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg**

**Aelodaeth:** (Un cynrychiolydd)

**Enwau'r Aelodau:** Yr Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings (Y Cynghorydd B Harris - Dirprwy Enwebedig)

**Cefndir:**
Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, daeth cyrff statudol o'r enw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i rym o 1 Ebrill, 2016 (gan gymryd yr awenau gan Fyrddau anstatudol blaenorol yr Awdurdodau - Byrddau Gwasanaethau Lleol. Caiff byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru a bydd angen i'r cyrff cyhoeddus sy'n ffurfio'r Byrddau ddangos eu cyfraniad ar y cyd at les yr ardal a'u cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

**Cylch Gorchwyl:**
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, sy'n gwasanaethu ardaloedd Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

Nod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw bod yn brif fforwm arweiniad strategol ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau sy'n croesi ffiniau sefydliadau ac yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cwm Taf Morgannwg. Bydd e'n ceisio deall y prif faterion sy'n wynebu pob sefydliad partner, gyda'r bwriad o fod yn Fwrdd mwy tryloyw trwy gyhoeddi data a gwybodaeth am gyflawniad; a bydd yn helpu i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus gan symud o agenda adweithiol i agenda ataliol.

**Aelodaeth:**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu'r gofynion ar gyfer aelodaeth pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan nodi strwythur clir. Rhaid bod gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf bartneriaid statudol sy'n cynnwys:

(a) Y Cynghorwyr a etholwyd yn Arweinwyr Gweithredol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (yr awdurdod lleol) neu'r Meiri etholedig;
(b) Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yr Awdurdodau a ddynodir ac a bennir o dan Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
(c) Naill ai Cadeirydd neu Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr awdurdodau lleol) - neu'r ddau.
(d) Naill ai Prif Swyddog neu Gadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, neu'r ddau; a
(e) Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae modd i'r unigolion uchod benodi unigolyn arall i gynrychioli'r sefydliad ar eu rhan. Rhaid i bob aelod (a benodwyd yn ffurfiol neu fel arall) fod yn bresennol er mwyn i gyfarfod o'r Bwrdd sicrhau cworwm.

Rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal awdurdod lleol wahodd y bobl ganlynol i gymryd rhan yng ngweithgarwch y Bwrdd. Rhaid i'r aelodau gwahoddedig yma gynnwys:

(a) Gweinidogion Cymru;
(b) Prif Gwnstabl yr Heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn gorwedd o fewn ardal yr awdurdod lleol;
(c) Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer unrhyw ardal heddlu y mae rhan ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
(d) person y mae trefniadau a threfniannau o dan Adran 3(2) o Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 (Pennod 21) yn ei wneud yn ofynnol iddo neu iddi ddarparu gwasanaethau prawf mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol; a
(e) o leiaf un corff sy'n cynrychioli sefydliadau gwirfoddol perthnasol (p'un a yw'r corff yn cael ei alw'n Gyngor Gwirfoddol Sirol ai peidio).

Gall pob Bwrdd wahodd partneriaid eraill i gymryd rhan yng ngweithgaredd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd.

**Craffu:**
Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rhaid i Bwyllgor Craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol graffu ar waith y Bwrdd.

### 8.2 Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro – Panel Penodi

**Aelodaeth:** Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Norris, J Edwards a J Smith

**Cadeirydd:** Mrs T Thomas

**Cynrychiolaeth Aelod Seneddol Lleol:** C Bryant AS (neu enwebedig)

**Cymorth Swyddog:**
Bydd y Panel yn cael cymorth Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Materion Tai ac Adfywio, a Chyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Diben y panel:**
Bydd y Panel Penodi yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol a'r Aelod Seneddol Lleol. Ei ddiben yw penodi Cadeirydd Annibynnol ar gyfer Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro. Dylai'r Cadeirydd Annibynnol a fydd yn arwain y Bwrdd Cymdogaeth fod yn hyrwyddwr dros Rhondda Fach, gan sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei lywio gan y gymuned ac wedi'i wreiddio yn yr ardal leol.

### 8.3 Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro

**Aelodaeth:** I'w gadarnhau

**Cadeirydd:** Mrs T Thomas

**Cynrychiolaeth Aelod Seneddol Lleol:** C Bryant AS (neu enwebedig)

**Cynrychiolaeth Aelod o Senedd Cymru:** I'w gadarnhau

**Cynrychiolaeth Allanol:**

Ar ôl cael ei benodi, bydd y Cadeirydd Annibynnol yn ystyried penodi aelodau o'r grwpiau canlynol. Dyw'r rhestr yma ddim yn hollgynhwysfawr a bydd cyfansoddiad yr aelodaeth yn dibynnu ar y cyd-destun lleol:

- Arweinwyr, trefnwyr ac actifyddwyr sefydliadau'r gymuned, megis elusennau lleol, grwpiau ffydd, grwpiau cymuned, fforymau cymdogaeth, grwpiau ieuenctid neu glybiau cymdeithasol;
- Busnesau lleol a mentrau cymdeithasol, megis cyflogwyr lleol allweddol, y Siambr Fasnach leol neu'r Ardal Gwella Busnes, a darparwyr tai cymdeithasol neu gydweithredol cofrestredig;
- Sefydliadau diwylliannol, celfyddydol, treftadaeth a chwaraeon, megis clybiau chwaraeon, grwpiau treftadaeth, amgueddfeydd neu leoliadau celfyddydol lleol; ac
- Asiantaethau cyhoeddus a sefydliadau angori, megis ysgolion lleol, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, darparwyr gofal iechyd lleol, neu gynrychiolwyr perthnasol o awdurdodau lleol.

**Cymorth Swyddog:** Bydd y Bwrdd Cymdogaeth yn cael cymorth Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Materion Tai ac Adfywio

**Cynnal y Cyfarfodydd:** Cwrdd bob chwarter neu'n unol â chyfarwyddyd Cadeirydd y Bwrdd

**Diben y Bwrdd:** Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Balchder Bro ar gyfer yr ardal erbyn mis Tachwedd 2026, gan lunio gweledigaeth 10 mlynedd a chynllun buddsoddi ar gyfer y 4 blynedd cyntaf gyda blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer ysgogi newid cadarnhaol.